



RHOSNEIGR

Taflen Newyddion Mawrth-Ebrill 2008



Llwybr Troed Newydd Llyn Maelog

Mae gwelliannau i'r llwybr troed ar yr ochr orllewinol wedi cychwyn, ac mae dyddiad cwblhau ar y gorwel. Cychwynnodd y gwelliannau hir ddisgwylidig ar ôl i grŵp Rhosneigr Ltd bwysu am welliannau ac yna aeth Prosiect Rhosneigr, sef tîm cymunedol newydd, â'r gwaith ymlaen i'r cam nesaf. Roedd cyflwr yr hen llwybr yn sâl oherwydd esgeulustod dros gyfnod hir o amser, ac nid oedd rhieni yn gwthio pramiau na phobl mewn cadeiriau olwyn yn medru mynd i fwynhau un o lecynnau harddaf ein pentref.

Trafodwyd y cynigion am llwybr newydd mewn cyfarfod agored llwyddiannus fis Tachwedd diwethaf. Ystyriwyd pob agwedd ar y gwaith, yn ogystal ag anghenion y SoDdGA (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) a CCGC (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) a Grŵp Datblygu Llwybr yr Arfordir. Canlyniad y cyfarfod oedd cefnogaeth unfrydol i'r cynigion a sicrhodd Derek Browne, Cadeirydd Prosiect Rhosneigr, y byddai'r llwybr newydd yn ateb gofynion yr holl feini prawf y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod cyhoeddus.

Rhan nesaf y prosiect ydi tirlunio'r ardal lle mae'r llwybr troed yn cychwyn. Bydd angen pridd ffres, planhigion newydd a glanhau'r lle yn gyffredinol. Mae Prosiect Rhosneigr wedi cychwyn ar y dasg ond croesewir unrhyw gyfraniad (yn enwedig llwyth neu ddau o bridd ffres).

Prosiect Rhosneigr yn Arwain y Ffordd

Gwelwyd grŵp cymunedol newydd yn cael ei greu yn Rhosneigr fis Ionawr ar ôl i Rhosneigr Ltd ddod i ben. Mae'r sefydliad newydd wedi ei ffurfio'n gyfan gwbl o wirfoddolwyr gyda phob un eisiau cefnogi'r pentref a'i phobl.

Yr enw a roddwyd ar y grŵp nid er elw hwn oedd 'Prosiect Rhosneigr', sydd yn adlewyrchu'r nifer o amrywiol dasgau y mae'r tîm yn fodlon ymgymryd â nhw er lles y pentref. Mae'r Cadeirydd, Derek Browne yn arwain y tîm canlynol o aelodau: Alison Robinson, Brett Parsons, Pip Chinery, Bill Collard a Joyce Kerlake. Trysorydd y grŵp ydi Jane Hughes ac mae cefnogaeth ychwanegol gan y Cyngorydd Phil Fowlie, y Cyngorydd Cymuned John Morrison a Chadeirydd Pwyllgor Rheoli Neuadd y Pentref, Maggie Jarman. Mae cynrychiolwyr rheolaidd o Fenter Môn wedi mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ac wedi darparu cyngor a chefnogaeth amhrisiadwy i'r grŵp.

Mae gan y tîm restr gyffrous o brosiectau i'w hystyried yn cynnwys ailgyflwyno Carnifal blynyddol Rhosneigr, er mwyn gwella'r Stryd Fawr, tirlunio llwybr troed Maelog (gweler erthygl ar wahân, ar y chwith) creu gwefan gymunedol newydd, casglu deunyddiau ar gyfer prosiect 'Hanes Rhosneigr' a llawer mwy. Maen nhw hefyd yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau cymunedol yr ardal, gan ddarparu cefnogaeth pan fydd angen.

DYDDIADAU I'R DYDDIADUR

24ain o Fai 2008 Gŵyl Gerdded Ynys Môn (gweler yr erthygl)

2il o Awst 2008 Dyddiad Arfaethedig Carnifal Rhosneigr

Wythnos 1af Awst Wythnos Ras RBA gan Asiantaeth Perchnogion Cychod Rhosneigr

Gŵyl Gerdded Ynys Môn

<http://www.angleseywalkingfestival.com/index.php>

"O Fai 24ain i'r 8fed o Fehefin bydd cyfle i gerdded a chlywed hanes nifer o bentrefi gwledig ac arfordirol yn cynnwys hanesion am ambell longdrylliad, canibaliaeth, smyglwyr ac ysbrydion..."

Dyma ddisgrifiad agoriadol gwefan Gŵyl Gerdded Ynys Môn sydd yn cael ei noddi a'i threfnu gan Menter Môn. Mae'n werth ymweld â'r wefan, ond yn well byth – archebwch le i chi'ch hun ar daith tra eich bod yno. Hyd yn hyn mae 52 o deithiau wedi eu rhestru ac mae taith rhif 38 yn cynnwys llwybr troed newydd Llyn Maelog.

Os nad oes gynnoch chi fynediad i'r we, ffoniwch: Alan Hart o Fenter Môn ar 01248 725 700 neu 01248 725 737 am ragor o wybodaeth.

E-bost: alan@mentermon.com

Pamffled ar Newydd-Wedd

Mae pamffled Rhosneigr i dwristiaid wedi dyddio ac allan o brint. Mae sawl sefydliad yn cynnwys Bwrdd Twristiaeth Cymru wedi holi am gopiâu i'w rhannu ymysg ymwelwyr, felly mae Prosiect Rhosneigr wedi ymgymryd â'r dasg o adolygu a diweddarau'r manylion a darganfod nawdd (wedi ei gymeradwyo erbyn hyn) i greu fersiwn newydd. Mae busnesau lleol wedi cymryd y cyfle i hysbysebu yn y pamffled diwygiedig ac mae'r dyluniad, sy'n cynnwys map o'r ardal, ar fin mynd i'r wasg. Cadwch olwg am y fersiwn newydd yn fuan.

Roedd o'n Nadolig Llawen


Coeden Nadolig gyda goleuadau yn Sullivans, y Stryd Fawr, a chanu Carolau yn Paran; mi wnaeth Rhosneigr ddathlu Nadolig 2007 mewn steil. Diolch caredig i Bernadette Farrell am ganiatáu i ni ddefnyddio ei hadeilad a chyflenwi trydan; i Bwyllgor Rheoli'r Neuadd Bentref am eu cymorth â'r noson canu Carolau; i blant a staff Ysgol Rhosneigr am ganu mor fendigedig; i Joan Langrill am gyflwyno, ac i Enid Jones am chwarae'r organ a threfnu i ddefnyddio Capel Paran. Diolch i'w hymdrechion nhw – mi oedd y Nadolig yn Rhosneigr yn un arbennig.

GWESTY GLAN NEIGR RHOSNEIGR FFÔN: 01407 810857

Er mwyn croesawu tymor yr haf byddwn yn cyflwyno bwydlen newydd a chyffrous, ac yn coginio bwydydd cartref drwy ddefnyddio'r cynnyrch ffres gorau yn lleol yn unig. Gan fod cymaint o'n cwsmeriaid yn rhai ffyddlon, byddwn yn cyflwyno cardiau Cynllun Ffyddlondeb ble bydd cwsmeriaid yn medru arbed 10% ar eu prydau. Holwch aelod o staff am fanylion pellach.

Rydym yn gweini bwyd saith niwrnod yr wythnos rhwng 7:30 a.m. a 9 p.m.

Archebwch eich bwrdd er mwyn osgoi cael eich siomi!



Busnesau'r Pentref

Hoffech chi weld hysbyseb am eich busnes yma? Rydym yn cefnogi masnachwyr a busnesau yn ein cymuned gyda hysbysebion am ddim.

E-bost: Project.Rhosneigr@yahoo.co.uk gyda'ch holl fanylion. Croesawn luniau digidol.



TAFLEN NEWYDDION AM DDIM

Beth am dderbyn copi lliw llawn o'r Daflen newyddion drwy e-bost? Anfonwch e-bost at

Project.Rhosneigr@yahoo.co.uk gyda'r geiriau TAFLEN NEWYDDION fel testun. Mae mor syml â hynny!

Cyhoeddwyd gan PROSIECT RHOSNEIGR *Yn Cefnogi'r Pentref*